# Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Cod Llywodraethu

# 2023/24

**Diwygiwyd Ddiwethaf: Mai 2024**
**Fersiwn 14**

**Cynnwys** | **Rhif y Dudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad**<br>**Egwyddorion Llywodraethu**<br>**Cyfrifoldebau am Lywodraethu Corfforaethol**<br>**Monitro ac Adolygu** | **1** |
| **Adolygiad o Effeithiolrwydd:** | **2** |
| **Egwyddor Graidd A**<br>*Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith* | **2** |
| **Egwyddor Graidd B**<br>*Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid*. | **5** |
| **Egwyddor Graidd C**<br>*Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.* | **8** |
| **Egwyddor Graidd D**<br>*Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau posibl.* | **9** |
| **Egwyddor Graidd E**<br>*Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion ynddo.* | **10** |
| **Egwyddor Graidd F**<br>*Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.* | **12** |
| **Egwyddor Graidd G**<br>*Rhoi arferion da ar waith mewn tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.* | **14** |
| **Camau Nesaf** | **15** |

## Cyflwyniad

Paratowyd y Datganiad hwn yn unol â chanllawiau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE); fodd bynnag, cynnwys y Cyngor ei hun ydyw'n ddiamau. Mae'r Cod Llywodraethu'n nodi saith egwyddor craidd ar gyfer llywodraethu da sydd wedi'u bwriadu i roi arweiniad i awdurdodau lleol o ran sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn y pen draw yn hwyluso defnydd tryloyw, effeithlon ac atebol o adnoddau ar gyfer eu dinasyddion.

Llywodraethu Corfforaethol yw'r fframwaith atebolrwydd i ddefnyddwyr, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y gall sefydliadau ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau, rheoli eu swyddogaethau a chyflawni eu hamcanion.

Er mwyn sicrhau llywodraethu corfforaethol da mae gofyn i awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, hygrededd, didueddrwydd a chynwysoldeb. Llywodraethu corfforaethol hefyd yw'r strwythur a ddefnyddir i bennu amcanion strategol a monitro perfformiad.

Mae'r cod hwn yn dangos dull Cyngor Blaenau Gwent a'i ymrwymiad i gyflawni a chynnal trefniadau llywodraethu corfforaethol da. Rydym wedi dangos bod gennym, yn y rhan fwyaf o feysydd, drefniadau llywodraethu da sy'n gwella'n barhaus, ond rydym hefyd yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud.

## Egwyddorion Llywodraethu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithredu trwy Fframwaith Llywodraethu sy'n dwyn ynghyd set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli. Nod y ddogfen hon yw cyfundrefnu'r fframwaith hwn a galluogi'r Cyngor i ddangos mewn modd tryloyw sut y mae'n gweithredu yn erbyn y safonau Llywodraethu gorau a barnu a mesur unrhyw welliannau angenrheidiol.

## Cyfrifoldebau am Lywodraethu Corfforaethol

Arweinydd a holl Aelodau'r Cyngor, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arwain Corfforaethol, sy'n gyfrifol am ddatblygu, cyflawni ac adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn. Defnyddir y Cod Lleol hwn fel fframwaith i gynnal busnes i gyflawni gwelliannau i bobl Blaenau Gwent.

## Monitro ac Adolygu

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am fonitro'r modd y cydymffurfir â'r Cod a monitro ei effeithiolrwydd i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn dilyn adolygiad o'r Cod Llywodraethu a pha mor dda y mae'n gweithio neu beidio, bydd yr adroddiad canlyniadol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i brofi lefel y sicrwydd a gafwyd.

Lle mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn datgelu bylchau neu wendidau posibl, cytunir ar gamau gweithredu i sicrhau llywodraethu effeithiol yn y dyfodol. Ychwanegir y camau gweithredu hyn at Gynllun Gweithredu'r Cyngor sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Caiff y cynllun hwn ei fonitro gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor i sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ac yn amserol.

Mae ffynonellau sicrwydd annibynnol ynghylch addasrwydd ac effeithiolrwydd y Cod yn cynnwys Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol, gwaith Pwyllgor Moeseg a Safonau a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor a Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i gael eu monitro gan arolygwyr a rheoleiddwyr. Fe wnaed cynnydd yn erbyn argymhellion adroddiadau Rheoleiddwyr sy'n helpu i lunio Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod. Mae proses yn ei lle i fonitro'r holl gynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru. Caiff y rhain eu monitro gan ddefnyddio 'offeryn tracio adroddiadau' a gynhelir gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol. Mae'r holl gynigion 'agored' ar gyfer gwella'n cael eu cynnwys yn y cynlluniau busnes perthnasol ac fe adroddir arnynt trwy'r broses ddemocrataidd.

## Adolygiad o Effeithiolrwydd

I gyflawni egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol da, mae'r Cyngor yn cefnogi a bydd yn cymhwyso saith Egwyddor Graidd llywodraethu da fel a ganlyn:

- Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.
- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
- Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
- Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau posibl.
- Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion ynddo.
- Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
- Rhoi arferion da ar waith mewn tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol.

Ni ddylid ystyried yr egwyddorion hyn ar wahân gan eu bod yn gydgysylltiedig ac yn gorgyffwrdd neu'n uno â'i gilydd.

## Egwyddor Graidd A - Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai natur agored, uniondeb ac atebolrwydd unigolion o fewn sefydliad yw conglfaen llywodraethu corfforaethol effeithiol. Mae hygrededd ac enw da'r Cyngor yn dibynnu ar safonau ymddygiad uchel gan ei staff, Aelodau a chynrychiolwyr ac mae'n amcanu at fod â gwerthoedd a rennir ar draws y grwpiau hyn. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022/27 yn cynnwys set o werthoedd a rennir, sef:

- Parchus;
- Cynhwysol;
- Cydweithredol;
- Atebol; a hefyd
- Cefnogol.

Felly, mae'r Cyngor yn amcanu at weithredu o fewn diwylliant o ymddygiad sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir, egwyddorion moesegol ac ymddygiad da ac mae'n disgwyl i'w uwch aelodau a rheolwyr arfer arweinyddiaeth wrth hyrwyddo'r egwyddorion hyn.

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn nodi rhaglen uchelgeisiol o weithgarwch ar gyfer y Cyngor. Mae'r blaenoriaethau, y cyfeirir atynt hefyd fel Amcanion Llesiant, wedi cael eu datblygu er mwyn cefnogi cymunedau Blaenau Gwent a diffinio gwasanaethau modern o ansawdd da sy'n ategu twf

economaidd a llesiant.

Mae'r Cynllun yn amlinellu pedair blaenoriaeth lefel uchel, y tanategir pob un ohonynt gan gynlluniau busnes cadarn a chynaliadwy, sy'n disgrifio'r gweithgarwch sydd i'w gyflawni gan bob maes gwasanaeth yn y Cyngor, gan sicrhau y gellir dwyn y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei gyflawni.

Y pedair blaenoriaeth lefel uchel yw:

- Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth.
- Ymateb i'r argyfwng natur a newid hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig
- Cyngor uchelgeisiol a blaengar yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir
- Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i bobl Blaenau Gwent i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Bydd pennu nifer fach o flaenoriaethau strategol yn y Cynllun Corfforaethol yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio ymdrechion ar gyflawni yn y meysydd hyn ac, yn y pen draw, bydd yn helpu i wella ansawdd bywydau trigolion. Ym mis Mawrth 2024, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn pob blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn mynd ati'n effeithiol i fonitro'r modd y gweithredir y Cynllun ac adrodd yn dryloyw ar gynnydd.

Nid yw'r blaenoriaethau wedi cael eu datblygu ar wahân ac fe'u cysonwyd hefyd ag Egwyddorion Marmot (8 egwyddor a nodwyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau) a blaenoriaethau Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent.

| **Bydd y Cyngor yn cyflawni hyn trwy gynnal, cyfleu ac adolygu'r canlynol:** | |
|---|---|
| • Cyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys fframweithiau polisi aelodau a swyddogion<br>• Fframweithiau ar gyfer Craffu a'r Cabinet<br>• Protocolau anffurfiol parthed: Cwynion – Aelodau a Swyddogion<br>• Protocol Deisebau<br>• Cofrestrau o Fuddiannau ar gyfer Aelodau a Swyddogion<br>• Rheolau gweithdrefnol i Aelodau a Swyddogion ddatgan buddiant yn y busnes sy'n cael ei ystyried ym mhob Pwyllgor a'r Cyngor<br>• Mae gan bob Pwyllgor swyddog cynghori i roi cymorth i gynnal cyfarfodydd yn briodol<br>• Rheolau'r Weithdrefn Gontractau<br>• Polisi Atal Twyll, Atal Llygredigaeth ac Atal Llwgrwobrwyo gan gynnwys llinell gymorth twyll<br>• Fframwaith Cymhwysedd diffiniedig ar gyfer staff<br>• Polisi Chwythu'r Chwiban<br>• Gweithrediad Pwyllgor Moeseg a Safonau gan gynnwys aelodaeth allanol annibynnol â chylch gorchwyl diffiniedig | • Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o fframwaith sicrwydd y Cyngor. Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl diffiniedig a rhaid i draean o'i aelodaeth fod yn aelodau lleyg<br>• Cadw Rhestr Flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau, cadw cofrestr i gofnodi taliadau a chyhoeddi ar-lein<br>• Hyfforddiant sefydlu i Swyddogion ac Aelodau gan gynnwys safonau ymddygiad a ddisgwylir a Rhaglen Datblygu Aelodau barhaus<br>• Fframwaith Cymhwysedd ac Adolygiadau o Ddatblygiad Personol ar gyfer Aelodau i oleuo datblygiad Aelodau unigol yn ogystal â'r Strategaeth Datblygu a Rhaglen Hyfforddi Aelodau<br>• Fframwaith Mentora Aelodau<br>• Cyfle ffurfiol i'r holl Aelodau ar ddechrau cyfarfod i ddatgan eu buddiannau |

| | |
|---|---|
| • Cyfrifoldeb dirprwyedig i swyddogion allweddol mewn perthynas â thwyll, codau ymddygiad, safonau a chwythu'r chwiban | |

Mae'r Cyngor wedi nodi safonau ymddygiad gofynnol ac wedi darparu canllawiau i helpu i gynnal a gwella safonau. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi Urddas yn y Gwaith yn ychwanegol at ei Godau Ymddygiad a Pholisi Chwythu'r Chwiban.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cyfansoddiad sydd:

- Yn diffinio'n glir y swyddogaethau hynny a fydd yn cael eu cadw'n ôl i'r Cyngor llawn ar gyfer penderfyniad, y penderfyniadau hynny a fydd yn cael eu gwneud gan y Cabinet neu ei aelodau unigol, a'r rhai a ddirprwyir i uwch swyddogion. Y Cyngor llawn sy'n pennu'r cyfeiriad strategol trwy fabwysiadu polisïau pwysig a'r gyllideb, y Cabinet sy'n gwneud penderfyniadau pwysig o fewn y fframwaith polisi a chyllideb ar y cyfan, gan helpu i ddatblygu polisïau newydd. Swyddogion sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd o fewn y fframwaith polisi a chyllideb.
- Yn nodi'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Caiff penderfyniadau a all gael eu gwneud gan y Cabinet, y Pwyllgorau rheoleiddiol a'r Cyngor llawn eu dangos yn adrannau 4-7 o'r Cyfansoddiad. Hefyd, mae polisïau a phrotocolau'r Cyngor yn nodi'r prosesau y mae'n rhaid eu dilyn wrth wneud penderfyniadau e.e. Polisïau Datblygu Sefydliadol, Ceisiadau Trwyddedu a Chynllunio, Apeliadau, cyflwyno cynigion gerbron Pwyllgorau.
- Yn sefydlu rôl trosolwg a chraffu gref trwy'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae gan y Pwyllgorau hyn rhyngddynt bwerau i adolygu a chraffu ar benderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw weithgareddau gan y Cyngor, gan gynnwys ystyried cynigion polisi cyn iddynt gael eu mabwysiadu gan y Cyngor neu'r Cabinet neu fod â gweithdrefnau 'galw i mewn' yn dilyn penderfyniad.
- Yn nodi'n glir beth yw rôl yr Arweinydd a'r Cabinet ac yn arbennig yn ei gwneud yn glir eu bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol i sicrhau bod y Cyngor yn mynd ati'n llwyddiannus i gyflawni ei gyfrifoldebau ar y cyfan am weithgareddau'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.
- Yn gweithredu tri Phwyllgor Rheoleiddiol, Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a Phwyllgor Trwyddedu Statudol, sydd â phwerau penodol wedi'u dirprwyo iddynt gan y Cyngor.
- Yn ei gwneud yn glir beth yw rolau'r holl Gynghorwyr yn eu rôl benderfynu/datblygu polisi ffurfiol ac fel aelodau lleol.

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau cynhwysfawr (yn adrannau 16 ac 17), ar gyfer y broses i'w mabwysiadu wrth gynnal busnes y Cyngor.

Mae'r Cyfansoddiad a dogfennau ffurfiol eraill yn nodi protocolau a chodau ymddygiad eglur i sicrhau bod gofynion a ffiniau prosesau penderfynu'n eglur i Aelodau:

- Cod Ymddygiad yr Aelodau;
- Gweithdrefnau Safonau;
- Cod Ymddygiad ar Faterion Cynllunio;
- Rolau a chyfrifoldebau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu; a'r
- Protocol Aelod Lleol / Swyddogion.

Hefyd, ceir set o Bolisïau Cyflogaeth sy'n hysbysu swyddogion yn glir ynghylch disgwyliadau yn y

broses benderfynu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yn weithredol beth yw'r terfynau gweithgarwch cyfreithlon a osodwyd arnynt gan hefyd geisio defnyddio pwerau i gael y budd mwyaf i'w cymunedau trwy'r canlynol:

- Cyngor Cyfreithiol ac Ariannol wrth baratoi adroddiadau'r Cyngor, Pwyllgorau a'r Cabinet;
- Argaeledd y cyngor cyfreithiol yng nghyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Statudol;
- Datblygiad a hyfforddiant proffesiynol (gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaeth ar gyfer staff Gofal Cymdeithasol y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn arbennig);
- Polisïau a phrotocolau'r Cyngor sy'n nodi'r prosesau; a hefyd
- Prosesau Asesiad Effaith Integredig.

## Egwyddor Graidd B - Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei brif ddiben o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl Blaenau Gwent a'r angen penodol i ymgysylltu â hwy a rhanddeiliaid eraill wrth gynllunio gwasanaethau i gael eu darparu a bod yn atebol iddynt am y gwasanaethau hynny.

Mae'r Cyngor yn amcanu at gyflawni hyn trwy'r canlynol:

- Llinellau cyfathrebu eglur gyda phobl a sefydliadau y mae'r Cyngor yn atebol iddynt;
- Datganiadau eglur am rôl ei aelodau yn eu hamryw swyddi;
- Datganiadau eglur am rolau a chyfrifoldebau staff yn eu swydd ddisgrifiadau;
- Cylchoedd gorchwyl ar gyfer pwyllgorau'r Cyngor a'u cynnal yng ngŵydd y cyhoedd;
- Datganiad eglur am flaenoriaethau strategol, gweithgarwch a dangosyddion perfformiad fel y maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol 2022/27;
- Gweithredu gweithdrefn gwynion effeithiol;
- Ymgynghori ac ymgysylltu â staff wrth wneud penderfyniadau;
- Sicrhau bod staff yn hygyrch i'r cyhoedd mewn modd eglur trwy gyfarfodydd, argaeledd dros y ffôn, e-bost a, lle y bo'n briodol, ymweliadau â'r cartref; a
- Sicrhau bod trefniadau partneriaeth a threfniadau caffael yr un mor eglur ynglŷn ag atebolrwydd.

Ym mis Medi 2021, fe ddiddymwyd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent fel bod un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol ar gyfer Gwent yn gallu cael ei sefydlu. Mae BGC Gwent yn dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Maent yn gyfrifol, dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, am oruchwylio'r broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Llesiant Gwent 2023-28, sef cynllun rhanbarthol newydd sy'n nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer llesiant yn yr ardal. Er mwyn datblygu'r Cynllun newydd hwn gan BGC Gwent, fe gynhaliodd BGC Gwent asesiad rhanbarthol o Lesiant, y mae ei dystiolaeth wedi cael ei defnyddio i ddatblygu'r Cynllun Llesiant ar gyfer Gwent. Rhaid cyhoeddi'r Cynllun Llesiant terfynol yn ddim hwyrach na 12 mis yn dilyn etholiad llywodraeth leol cyffredin. Fel arfer byddai hyn yn golygu y dylai'r Cynllun fod wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023; fodd bynnag, oherwydd bod angen i'r cynllun terfynol fynd gerbron Byrddau'r wyth aelod statudol, cafwyd cytundeb i oedi ychydig bach cyn ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant BGC Gwent ym mis Awst 2023. Mae'r Cynllun terfynol yn nodi dau amcan allweddol ar gyfer y rhanbarth:

- Rydyn ni am greu Gwent tecach, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb; ac
- Rydym ni am weld Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sefydlwyd pum cam hefyd i gyflawni'r ddau amcan trosfwaol. Bydd cynlluniau cyflawni ar gyfer pob cam sy'n egluro'r hyn fydd yn cael ei wneud yn y tymor byr, canolig a hwy, pwy fydd yn ei wneud ac erbyn pryd, yn cael eu datblygu yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel fframwaith. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad blynyddol cyntaf. Bydd y cynlluniau cyflawni'n cael eu hategu gan gynlluniau cyflawni lleol ar lefel sirol. Bydd y rhain yn cael eu hysgrifennu gan Grwpiau Cyflawni Lleol, sy'n adlewyrchu aelodaeth y BGC ond ar lefel fwy lleol. Y pum cam yw:

- Gweithredu i leihau'r argyfwng Costau Byw yn y tymor hwy;
- Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi o ansawdd da, fforddiadwy, priodol;
- Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol;
- Gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith Egwyddorion Marmot; a
- Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau, a chymunedau i fod yn wydn, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel.

Fel rhan o ddatblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, sefydlwyd Cydbwyllgor Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac fe'i rheolir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar ran y Bwrdd.

Mae Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol (2020-25) yn ei lle ac mae'n strategaeth allweddol fel rhan o'r fframwaith llywodraethu ar y cyfan. Mae gan y strategaeth chwe ysgogydd allweddol gyda'r nod o gyflawni cyfathrebiadau dwyffordd rhagorol, arloesol a chost-effeithiol gyda chynulleidfaoedd targed allweddol. Ei nod ar y cyfan yw ennill enw cadarnhaol i'r Cyngor i greu ymddiriedaeth a hyder yng ngwasanaethau'r Cyngor.

Cymeradwywyd Strategaeth Fasnachol gyntaf y Cyngor yn 2020. Ym mis Ebrill 2024, fe gytunodd y Cabinet ar Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod 2024/27. Mae'r strategaeth yn cefnogi sut y gall y Cyngor gynllunio a dod o hyd i ffyrdd arloesol i newid sut y mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer y gymuned. Bydd ganddi rôl hanfodol o ran llywio trawsnewid pellach a modelau darparu gwasanaethau modern ar gyfer y Cyngor yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd ariannol i'r eithaf. Tanategir y Strategaeth gan ddwy egwyddor allweddol a thair blaenoriaeth:

- **Egwyddor Un:** Datblygu diwylliant sy'n cynorthwyo'r sefydliad i fod yn fwy masnachol ei fryd.
- **Egwyddor Dau**: Datblygu'r trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau sefydliadol a fydd yn ategu cynllunio masnachol.

- **Blaenoriaeth Un:** Newid y ffordd y mae Aelodau Etholedig a staff yn meddwl am gyfleoedd masnachol ac yn eu gyrru yn eu blaen.
- **Blaenoriaeth Dau:** Meithrin a gwreiddio'r dulliau sefydliadol sy'n ategu datblygiad modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau.
- **Blaenoriaeth Tri:** Datblygu rhaglen sefydliadol o gyfleoedd buddsoddi masnachol arfaethedig.

Er mwyn ategu ymagwedd y Cyngor at ddod yn fwy masnachol ei fryd, fe sefydlwyd Rhwydwaith Cyfleoedd Busnes a Masnachol i arwain ar ddatblygu prosiectau masnachol gan weithio gydag ystod o randdeiliaid ar draws y Cyngor i adolygu dulliau masnacheiddio presennol yn y sefydliad.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'r gymuned. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a Pherfformiad gymeradwyo Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad ddrafft ar gyfer ymgynghori. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth a mis Ebrill 2024, ac fe gafwyd 170 o ymatebion. Lluniwyd Strategaeth wedi'i diweddaru yn ogystal â chynllun gweithredu ategol a bydd y rhain yn cael eu cymeradwyo trwy'r

broses ddemocrataidd ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r strategaeth yn cynnwys pedwar Amcan Allweddol:

- **Amcan 1:** Prif ffrydio dulliau ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws y Cyngor.
- **Amcan 2:** Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Blaenau Gwent yn y ffordd fwyaf effeithiol a chydweithredol.
- **Amcan 3:** Mynd ati'n frwd i annog ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol i gyfranogi yng ngweithgarwch penderfynu'r Cyngor.
- **Amcan 4:** Cynnal arfer gorau o ran ymgysylltu a chyfranogi ac aros gyfuwch â'r datblygiadau arloesol diweddaraf i helpu i gefnogi ein cymunedau.

Yn dilyn adolygiad o ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor 2023/27 ym mis Hydref 2023. Tanategir y Strategaeth gan dair egwyddor allweddol a thair blaenoriaeth:

- **Egwyddor Un:** darparu profiad cadarnhaol i gwsmeriaid;
- **Egwyddor Dau:** buddsoddi yn ein staff i gefnogi cwsmeriaid a datrys ymholiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf lle'n bosibl;
- **Egwyddor Tri:** datblygu diwylliant sy'n cefnogi gwelliant digidol ac arloesedd ac sy'n parhau i wneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd;

- **Blaenoriaeth Un:** dylunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid;
- **Blaenoriaeth Dau:** cyflawni diwylliant gyda ffocws ar y cwsmer;
- **Blaenoriaeth Tri:** rhoi dewis i'n cwsmeriaid ar sut maent yn rhyngweithio gyda ni, yn seiliedig ar adborth.

Ochr yn ochr â'r Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid mae'r Cabinet hefyd wedi cymeradwyo Strategaeth Trawsnewid Digidol 2023/27 ar gyfer y Cyngor. Tanategir y Strategaeth gan ddwy egwyddor allweddol a thair blaenoriaeth ac mae'n hanfodol i wella a darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol:

- **Egwyddor Un:** datblygu diwylliant sy'n cefnogi gwelliant digidol a phrofiad llyfn i gwsmeriaid;
- **Egwyddor Dau: g**wella cydweithio i wneud y defnydd gorau o wybodaeth ac arbenigedd i greu gwasanaethau gwell;

- **Blaenoriaeth Un:** bod â ffocws ar y cwsmer;
- **Blaenoriaeth Dau:** bod yn Fwrdeistref a alluogwyd yn ddigidol;
- **Blaenoriaeth Tri:** cynyddu i'r eithaf y defnydd o'n hadnoddau a thechnoleg.

Datblygwyd themâu a blaenoriaethau allweddol y strategaeth hon trwy ymchwil defnyddwyr ac ymgysylltu â chwsmeriaid; ymgysylltu â staff; gweithdai gydag uwch reolwyr; ymgysylltu ag aelodau etholedig; trafodaethau gyda'n partneriaid ymhlith awdurdodau lleol a chanlyniadau asesiadau o aeddfedrwydd digidol.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar nifer o brosiectau sy'n canolbwyntio ar dechnoleg ddigidol ac ar gwsmeriaid. I ategu hyn, mae Bwrdd Gwasanaethau Digidol wedi cael ei sefydlu a Hyrwyddwyr Digidol wedi cael eu hadnabod ym mhob maes gwasanaeth. Bydd y bwrdd yn sefydlu rhaglen o adolygiadau ailddylunio gwasanaethau a fydd yn seiliedig ar brofiad cwsmeriaid a defnyddwyr ac i sefydlu datrysiadau digidol.

Mae'r Cyngor yn datblygu dull lle mae gwasanaethau'n cael eu dylunio o gwmpas y cwsmer ac mae hyn yn goleuo'r rhaglen ddigidol gorfforaethol a'r broses o ailddylunio gwasanaethau i

gynyddu arloesi digidol i'r eithaf. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod cynnig datrysiadau digidol effeithiol mewn gwasanaethau perthnasol o fudd i'r cwsmer a'r sefydliad, gan hefyd alluogi capasiti ar gyfer y rhyngweithiadau mwy cymhleth lle mae angen y cyffyrddiad dynol.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook ac i gefnogi datblygiad sianeli digidol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ei ddefnyddwyr yn cael y cyfle i ddylanwadu a chael gwasanaethau o ansawdd da, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau i gyflawni gwerth ardderchog am arian.

## Egwyddor Graidd C - Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Fe wnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) statudol. Diben y BGCau yw gwella'r llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal trwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Gelwir hwn yn Gynllun Llesiant. Rhaid iddo ddweud:

- Pam fod y BGC o'r farn y bydd ei amcanion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant
- Sut y mae wedi ystyried yr asesiad o Lesiant wrth bennu'r amcanion a'r camau i'w cymryd.

Bydd pob BGC yn cynnal adolygiad blynyddol o'i gynllun sy'n dangos ei gynnydd. Wrth gynhyrchu eu hasesiadau o lesiant a'r Cynllun Llesiant, rhaid i BGCau ymgynghori'n eang.

Aelodau Statudol pob BGC yw:

- Yr Awdurdod Lleol;
- Yr Awdurdod Iechyd Lleol;
- Y Bwrdd Iechyd Lleol;
- Yr Awdurdod Tân ac Achub; a
- Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ogystal â'r aelodau statudol bydd pob BGC yn gwahodd y bobl ganlynol i gyfranogi:

- Gweinidogion Cymru;
- Prif Gwnstabliaid;
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
- Rhai Gwasanaethau Prawf; ac
- O leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol perthnasol.

Bydd BGCau hefyd yn gallu gwahodd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill i gyfranogi.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy. Diffinnir Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen gwneud hyn trwy weithredu yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy fel bod y nodau llesiant yn cael eu cyrraedd.

Cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yw sut y mae cyrff cyhoeddus yn gallu cynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Yn ychwanegol at y Codau Ymddygiad a'r protocolau y cyfeirir atynt dan Egwyddor Graidd A, mae'r Cyngor yn ceisio cynnal safonau uchel wrth gynnal ei fusnes ac osgoi rhagfarn, tuedd a gwrthdaro buddiannau. Cyflawnir hyn trwy ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, a fforymau ymgysylltu amrywiol fel y Fforwm Ieuenctid, a'r Fforwm 50+.

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf o hyn ymlaen) yn weithredol ar 6 Ebrill 2011. Fe wnaeth y Ddeddf ddisodli'r 116 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli eisoes mewn perthynas â chydraddoldeb a'u rhoi i gyd gyda'i gilydd mewn un darn o ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r gyfraith mewn ffyrdd pwysig, ac mewn rhai ffyrdd mae'n estyn y gyfraith bresennol i helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.

Ym mis Mawrth 2024 fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024/2028. I greu Cynllun sy'n berthnasol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ym Mlaenau Gwent, fe ymgysylltwyd â'r cyhoedd ac roedd hynny'n cynnwys rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd a oedd yn cynnwys 160 o bobl â phrofiadau personol ar draws y nodweddion gwarchodedig sydd wedi'u nodi a phroses ymgynghori ffurfiol a ddigwyddodd ym mis Ionawr 2024.

Mae'r cynllun yn cynnwys Chwe Amcan Cydraddoldeb:

- Byddwn yn sefydliad teg a chyfiawn;
- Byddwn yn weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant;
- Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol;
- Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig; a
- Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.

## Egwyddor Graidd D - Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig yn y ffordd orau posibl

Arferir arweinyddiaeth trwy gyfleu'n glir beth yw diben a gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Blaenau Gwent a'i ddeilliannau bwriadedig ar gyfer ei ddinasyddion a defnyddwyr ei wasanaethau. Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Blaenau Gwent – lle sy'n deg, agored a chroesawgar i bawb drwy weithio gyda a thros ein cymunedau*

Mae gan y Cyngor ddylanwad ehangach yn y gymuned ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau trwy gymysgedd o gaffael, darpariaeth fewnol a phartneriaethau i helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

Yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal hunanasesiad corfforaethol o leiaf unwaith yn flynyddol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei broses cynllunio busnes gyfredol i gasglu tystiolaeth yn ogystal â nodi nifer o ddogfennau allweddol i gyfeirio atynt. Ym mis Hydref 2023 fe gymeradwyodd y Cyngor ei ail Hunanasesiad yr oedd ei ffocws ar flaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a adwaenir fel Amcanion Llesiant, ac asesiad yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor wedi cyflawni'r rhain yn ei dyb ef a ble y mae angen gwelliant pellach. Mae'r broses cynllunio busnes wedi cael ei symleiddio'n fwy hefyd trwy ymgorffori Dangosyddion

Perfformiad, Risg, Cydraddoldebau, Y Gymraeg, Deddf yr Amgylchedd, Datgarboneiddio a chynigion ar gyfer gwella gan archwilwyr mewn un ffurflen fonitro ar system ganolog. Mae'r broses hunanwerthuso'n cysylltu'n uniongyrchol â'r broses cynllunio busnes. Bydd y broses cynllunio busnes yn cynnal adolygiad ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Corfforaethol er mwyn adlewyrchu anghenion y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn paratoi Cyllideb Flynyddol i ddarparu adnoddau ar gyfer blaenoriaethau ei wasanaethau. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn cael ei hadolygu a'i diweddaru o leiaf yn flynyddol, ac fe gymeradwywyd fersiwn gryno gan y Cyngor ar 21 Rhagfyr 2022, ac mae'n cynnwys amcanestyniadau hyd at 2028/29 i roi cymorth i gynllunio gwasanaethau'n well. Mae'r SATC i fod i gael ei hadolygu nesaf yn ystod 2024.

## Egwyddor Graidd E - Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion ynddo

Mae'r Cyngor yn ymegnïo i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n darparu ei wasanaethau trwy ei broses cynllunio gwelliant a'i Fframwaith Rheoli Perfformiad, ac mae wedi cryfhau'r trefniadau hyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â threfniadau rheoli risg yn ogystal ag adnabod lefelau atebolrwydd.

Mae cylch gwaith y Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach (TACE) wedi cael ei adolygu. Ei ddiben yn fras yw rhoi cymorth effeithiol i'r Tîm Arwain Corfforaethol yn ei rôl o ran darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Mae'r TACE hefyd yn fforwm sy'n defnyddio dull arweinyddiaeth wasgaredig i ledaenu gwybodaeth a chyfleu negeseuon, rhwydweithio gyda chydweithwyr a chymheiriaid a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.

Mae sicrhau bod Aelodau a Swyddogion yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i weithredu busnes gwerth miliynau lawer sy'n darparu ystod o wasanaethau gwahanol yn un o'r agweddau pwysicaf ar Lywodraethu. Ymdrinnir ag anghenion hyfforddi Aelodau fel rhan o ddatblygu Blaenraglenni Gwaith Pwyllgorau yn ogystal â thrwy'r Fframwaith Cymhwysedd Aelodau ac Adolygiadau Datblygiad Personol. Mae'r Cyngor yn dal Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau (Lefel 1). Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, darparodd y Cyngor Raglen Sefydlu a Hyfforddiant Diweddaru ar gyfer Aelodau gyda sesiynau wedi'u sefydlu yn y categorïau canlynol:

- Gorfodol;
- Argymelledig;
- Buddiol; a
- Defnyddiol

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu yn y Cyngor yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i berfformio'n dda.

| **Bydd y Cyngor yn cyflawni hyn trwy'r canlynol:** | |
|---|---|
| • Parhau â'i Raglen Hyfforddi Aelodau a'r rhaglen hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys o fewn Strategaeth Datblygu'r Aelodau.<br>• Sesiynau briffio Aelodau ar faterion sy'n bwysig i'r Cyngor.<br>• Hyfforddiant sefydlu a chyngor proffesiynol i Aelodau.<br>• Cyflwyno gofynion o ran sgiliau a phrofiad ar gyfer swyddi â chyfrifoldeb arbennig.<br>• Parhau i ddatblygu cymorth Technoleg | • Y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cael ei staffio'n briodol â swyddogion i gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth y Cyngor. Yn ymarferol mae cryn dipyn o'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i Gyfarwyddwyr, Prif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth.<br>• Bydd y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn pennu'r gofynion i gyflawni |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ar gyfer Aelodau i roi dealltwriaeth well am weinyddiaeth fodern ac i wella cyfathrebu.<br>• Gweithredu cyfarfodydd hybrid a darlledu / recordio'r rhain fel rhan o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Gweithredu fframwaith cymhwysedd ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.<br>• Rhaglen fentora ar gyfer Aelodau Etholedig.<br>• Trefniadau ar gyfer Aelodau sy'n eistedd ar Gyrff Allanol<br>• Siarter Recriwtio sy'n sicrhau bod y Cyngor yn cyflogi staff â chymwysterau a phrofiad angenrheidiol i gyflawni'r rôl a ddisgwylir ganddynt.<br>• Mae trefn coetsio perfformiad yn ei lle ar gyfer yr holl staff a monitro adrannol.<br>• Fframwaith Cymhwysedd a Phroses Adolygu Datblygiad Personol yn eu lle ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig sy'n cael Lwfans Uwch Gyflog ac yn cael eu cynnig i'r holl aelodau eraill. | eu rolau statudol.<br>• Mae'r SATC yn bwrw golwg ymlaen dros y pum mlynedd nesaf (2024/25 i 2028/29) i asesu'r pwysau o ran gwariant y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu a lefel yr arbedion y bydd angen eu gwneud.<br>• Mae'r Cyngor yn cael budd o'i aelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n rhoi cymorth a chynhorthwy mewn perthynas ag ystod o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor. Mae cymorth tebyg ar gael i aelodau o wahanol gyrff proffesiynol ar draws y Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymrwymedig i hybu iechyd a lles ei gyflogeion trwy arolygon staff cyfnodol ac ymgysylltu â staff.<br>• Bydd y Cyngor yn disgwyl gwerthoedd tebyg o ran datblygu a grymuso staff gan ei bartneriaid a'i asiantau ar gyfer darparu gwasanaethau. |

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fod â strwythurau a phrosesau gwleidyddol a rheoli effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac arfer awdurdod yn y sefydliad. Mae'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sy'n rhan o gynllunio a darparu gwasanaeth yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut y gallant gyflawni'r deilliannau gorau posibl gyda'i gilydd.

I helpu i gyflawni hyn, mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi'n glir beth yw portffolios ei wasanaethau a rôl a chyfrifoldebau'r holl Aelodau, ynghyd â'r penderfyniadau hynny a gedwir yn ôl gan y Cyngor.

Mae'n nodi'n benodol, trwy swydd ddisgrifiadau, beth yw rolau a chyfrifoldebau Pwyllgor y Cabinet ac Aelodau'r Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'u Cadeiryddion, Aelodau Craffu a Chadeiryddion ac Aelodau o Bwyllgorau Rheoleiddiol.

Mae'n nodi bod gan yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd rôl benodol i ddarparu arweinyddiaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cyngor wedi sefydlu Rôl Aelod Llywyddol sy'n cynnwys:

- Cadeirio Cyfarfodydd y Cyngor;
- Cynnal trefn a gwarchod hawliau'r Aelodau gan gynnwys sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei drin a'i drafod ar sail cydraddoldeb a diduedrwydd;
- Hybu ymgysylltiad democrataidd ac arweinyddiaeth ddemocrataidd; a
- Gweithredu fel llysgennad ar ran y Cyngor, gan fynychu digwyddiadau er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cyngor a chodi ei broffil.

Mae aelodaeth o'r holl swyddi gwleidyddol yn cael ei phennu bob blwyddyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (gan gynnwys rolau cynrychiadol). Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu'r rolau a chyfrifoldebau'n gyson. Hefyd, mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant sefydlu i'r holl Aelodau newydd ynghyd â chyngor proffesiynol a rhaglen hyfforddi sydd ar gael i bob Aelod gyfranogi ynddi.

Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu recordio a'u cynnwys ar wefan y Cyngor. Ochr yn ochr â hyn, cedwir cofnodion sy'n cynnwys:

- Presenoldeb;
- Ymddiheuriadau;
- Datganiadau o Fuddiant; a hefyd
- Penderfyniadau / Argymhellion

Mae'r cofnodion yn eistedd ochr yn ochr â'r recordiad o'r cyfarfod sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Cynhelir cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. Ceir hefyd gyfres o gyfarfodydd cynllunio cyn y cynhelir cyfarfod Pwyllgor ffurfiol. Mae Sesiynau Briffio a Hyfforddi ar gyfer Aelodau'n cael eu trefnu ar gyfer yr holl Aelodau ar faterion penodol. Cynhelir rhag-gyfarfodydd gyda'r pwyllgor cyfan cyn bod y pwyllgor ffurfiol yn digwydd i drafod trywyddion ymholi.

Bwriedir rhoi ystyriaeth i sefydlu cyfarfod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a fydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd.

Yn yr un modd, ar ochr Swyddogion, mae'r Cyfansoddiad yn nodi'r Cynllun Dirprwyo i Gyfarwyddwyr, Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion.

Yn arbennig, mae pedwar penodiad statudol, sef Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr), Swyddog Monitro (Pennaeth Cydymffurfio Cyfreithiol a Chorfforaethol), Swyddog Adran 151 (Prif Swyddog – Adnoddau) a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau) wedi'u cynnwys ynghyd â'u rolau a chyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod Aelodau'n cael cyngor ariannol, cyfreithiol a chyngor arall proffesiynol priodol.

Yn yr un modd, mae gan y Cyngor rolau statudol Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am bob agwedd ar reolaeth weithredol ac yn ymarferol mae'n gweithredu hyn trwy gynllun dirprwyo.

Mae'r Prif Swyddog – Adnoddau yn atebol i'r Cyngor am sicrhau y rhoddir cyngor priodol ar yr holl faterion ariannol ar gyfer cadw cofnodion a chyfrifon ariannol priodol ac am gynnal system rheolaeth fewnol effeithiol.

Mae'r Pennaeth Cydymffurfio Cyfreithiol a Chorfforaethol yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn ac y cydymffurfir â'r holl statudau a rheoliadau perthnasol a datganiadau perthnasol eraill o arfer da.

I helpu i egluro eu priod rolau mae'r Cyngor yn dilyn protocol Aelodau/Swyddogion sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu Tîm Arwain Corfforaethol o Brif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phrif Swyddogion, a gefnogir gan Dîm Arwain Ehangach; gyda'i gilydd mae'r rhain yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

| Egwyddor Graidd F - Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref |
|---|

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n wleidyddol gytbwys. Mae'n cwrdd yn rheolaidd ac fe'i cynghorir gan Reolwr Archwilio a Risg y Cyngor ac fe'i mynychir fel arfer gan gynrychiolwyr ar ran Archwilwyr Allanol y Cyngor. Mae'r Aelodau'n cael hyfforddiant ar rôl arbennig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 mae rôl a diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i aelodaeth wedi cael eu diwygio i sicrhau ei fod wedi'i sefydlu i wella cynllunio strategol a hwyluso gwaith craffu a herio o fewn strwythurau'r Cyngor. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r swyddogaethau canlynol:

- Adolygu adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr Awdurdod, craffu arnynt a'u cyhoeddi.
- Adolygu adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod, craffu arnynt a'u cyhoeddi.
- Goruchwylio trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod.
- Goruchwylio trefniadau archwilio'r Awdurdod ac adolygu ei ddatganiadau ariannol.
- Goruchwylio perfformiad yr Awdurdod ar gwynion.

Fe wnaeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 nodi nifer o newidiadau a ddaeth i rym o fis Mai 2022, sef

- Ymarfer recriwtio a dethol ar gyfer yr holl aelodau lleyg;
- Bod rhaid i draean o aelodau pwyllgorau fod yn bersonau lleyg;
- Bod rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg; a
- Bod rhaid i'r Dirprwy Gadeirydd beidio â bod yn aelod o'r Cabinet.

| Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth reolaidd i'w berfformiad wrth gyflawni ei amcanion allweddol trwy'r canlynol: | |
|---|---|
| • Datblygu Cynlluniau Busnes ar bob lefel.<br>• Pennu targedau perfformiad yn erbyn yr holl fesurau, yn rhai cenedlaethol a lleol.<br>• Deall a dadansoddi data cymharol a data ar dueddiadau i ddatblygu targedau.<br>• Datblygu, ar lefel yr holl wasanaethau a lefel cyfarwyddiaethau, ddata cenedlaethol a lleol ar flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r deilliannau strategol.<br>• Adolygu gwerth am arian yn gyson.<br>• Adolygiadau o ddarparu a blaenoriaethau gwasanaethau.<br>• Paratoi cyfrifon a archwilir yn allanol.<br>• Cymeradwyo cyllidebau'n flynyddol ac ystyried adroddiadau ar gyllidebau'n rheolaidd.<br>• Swyddogaeth effeithiol ar gyfer craffu ar yr holl wasanaethau gan Aelodau a'r pwyllgorau hynny'n cynnwys perfformiad a chyllid fel rhan o'u cylch gorchwyl. | • Trefniadau i ymdrin â methiant gwasanaethau.<br>• Monitro trefniadau partneriaeth.<br>• Profi bodlonrwydd cwsmeriaid.<br>• Gweithredu rheolaethau mewnol effeithiol.<br>• Monitro cwynion.<br>• Sicrhau cystadleuaeth wrth ddarparu gwasanaethau perthnasol a rheolaeth briodol ar gontractau.<br>• Bydd Cofrestrau Risgiau Gwasanaethau a Chyfarwyddiaethau'n effeithiol a byddir yn eu defnyddio ac yn adrodd arnynt mewn modd rhagweithiol.<br>• Craffu'n allanol ar archwilio gan Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, trwy eu cynllun rheoleiddiol.<br>• Cynnal Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol. |

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Rheoli Risg gyda'r bwriad yn y pen draw o wreiddio dull cyson ac effeithiol o Reoli Risg drwy'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. Ategir y strategaeth gan Lawlyfr Rheoli Risg (canllawiau).

Mae'r Fframwaith Rheoli Risg yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion, canllawiau ynghylch sut i ddisgrifio risg, a chanllawiau ynghylch sut i werthuso ac asesu risg. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol bod cofrestrau risgiau'n cael eu cynnal ar lefelau Gwasanaethau / Adrannau / Prosiectau ac y bydd y rhain yn ategu ac yn bwydo'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sy'n cynnwys y risgiau mwyaf arwyddocaol a wynebir gan y Cyngor.

Bydd Pwyllgorau Rheoleiddiol yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar adroddiadau manwl a bydd cyfeiriad at unrhyw wybodaeth hwyr yn y cofnodion. Wrth wneud gwaith y gofynnwyd amdano gan y Cyngor, neu'r Cabinet, neu wrth gynnal eu hymchwiliadau eu hunain, bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cytuno ar adroddiadau sy'n cynnwys y dystiolaeth yr ystyriwyd ei bod yn berthnasol.

Mae'r Cyngor yn cael nifer o archwiliadau allanol ac adolygiadau rheoleiddiol bob blwyddyn. Cynhelir y rhain i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian, bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod gwasanaethau gwell yn cael eu darparu. Mae'r Cyngor yn cael ei fonitro gan nifer o gyrff rheoleiddio, a'r prif rai yw: Archwilio Cymru; Arolygiaeth Gofal Cymru; ac Estyn

Mae trefniadau ymgysylltu gydag Archwilio Cymru yn eu lle gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau, gyda'r Swyddog Adran 151 a hefyd y Prif Weithredwr. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol gyda'r Arweinwyr hefyd.

Mae Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd gydag Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol (ACALl) a gynullir gan Estyn yn unol â gofynion yr arolygiaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALlL) wrth bwyllgorau Craffu a'r Cabinet. Mae'r Awdurdod yn cael cyfarfodydd diweddaru rhwng y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Aelodau, a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl y gofyn ac mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) hefyd yn darparu diweddariadau ar yr agenda gwella ysgolion ar gyfer y Cabinet/TAC a'r Pwyllgor Craffu.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei harchwilio, ei harolygu a'i hadolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn chwarterol, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cwrdd ag AGC i drafod cyflawniadau, perfformiad a heriau allweddol.

## Egwyddor Graidd G - Rhoi arferion da ar waith mewn tryloywder, adrodd ac archwilio, i gyflawni atebolrwydd effeithiol

Mae gan y Cyngor Wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol sy'n gweithio i gynllun archwilio cymeradwy a oleuwyd gan asesiad risg. Mae canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed yn goleuo barn flynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg ynglŷn â lefel y sicrwydd a ddarperir gan amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor.

Yn 2022, yn dilyn yr etholiadau lleol, gostyngodd nifer Aelodau Etholedig Blaenau Gwent o 42 i 33. O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd ymarfer ymchwil ddesg cynhwysfawr i ystyried ble y gellid cryfhau a moderneiddio swyddogaeth ddemocrataidd y Cyngor. Roedd y trefniadau hyn, sydd wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny, yn cynnwys:

- Newid i gylchoedd gwaith Pwyllgorau Craffu, sydd bellach fel a ganlyn:
    - Pwyllgor Craffu Lleoedd;
    - Pwyllgor Craffu Pobl;
    - Pwyllgor Craffu Partneriaeth; a'r
    - Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad.

- Sefydlu swydd Aelod Llywyddol;
- Lleihau maint pwyllgorau (bydd gan bob pwyllgor, ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddiol a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol, 9 aelod etholedig);
- Lleihau nifer yr eitemau a gynhwysir ar agendâu Pwyllgorau Craffu; a
- Bod cofnodion cyfarfodydd yn cynnwys y canlynol yn unig:
    - Presenoldeb;
    - Ymddiheuriadau;
    - Datganiadau o Fuddiant; a hefyd
    - Penderfyniadau / Argymhellion.

Mae'r cofnodion, ochr yn ochr â'r recordiad o bob cyfarfod, i'w cael ar wefan y Cyngor - democracy.blaenau-gwent.gov.uk/ieDocHome.aspx?Categories=

Bydd adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor yn cynnwys yr holl wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau y mae eu hangen i wneud penderfyniadau. Fel arfer caiff penderfyniadau'r Pwyllgorau eu recordio'n ffurfiol ar fideo, a'u cofnodi'n ffurfiol yn y cofnodion ac yn y ddalen benderfyniadau ar gyfer penderfyniadau Pwyllgor y Cabinet.

Mae'r Templed ar gyfer Adroddiadau Corfforaethol wedi cael ei ddylunio fel ei fod yn cofnodi'r wybodaeth ofynnol er mwyn rhoi cymorth i drafod a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Swyddog Monitro ar gael i roi cyngor i Aelodau a staff ynghylch gwrthdaro buddiannau a gwneud penderfyniadau ynghylch budd y cyhoedd ar agendâu'r Cyngor.

Mae'r swyddogaeth rheoli perfformiad yn gweithio dan y Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol. Mae Fframwaith Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys cyflwyno'r Adroddiad ar y Cyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol a Pherfformiad a Phwyllgor y Cabinet yn ogystal â chyflwyno adroddiadau meysydd gwasanaeth i'r Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet. Mae adroddiadau'n cynnwys diweddariadau ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol, risgiau mwyaf arwyddocaol y Cyngor, diweddariad rheoleiddiol, y sefyllfa ariannol a dangosyddion perfformiad craidd. Cyflwynir adroddiadau meysydd gwasanaeth i bob Pwyllgor Craffu hefyd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ac mae ganddo rôl arweiniol yn natblygiad trefniadau llywodraethu'r partneriaethau strategol allweddol. Wrth weithio mewn partneriaeth mae'r Cyngor yn amcanu at fod â threfniadau llywodraethu eglur sy'n darparu eglurder ynghylch statws cyfreithiol, a rolau a chyfrifoldebau partneriaid.

## Camau Nesaf

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo ddangos tystiolaeth glir o'i drefniadau llywodraethu.

Hon yw'r fersiwn ddiweddaraf o God Llywodraethu ffurfiol ar gyfer Blaenau Gwent, ac mae'r Cyngor yn ymrwymedig i adolygu'r Cod yn gyson ac, yn bwysig, i ddysgu o'i fabwysiadu er mwyn gwella trefniadau Llywodraethu "ar lawr gwlad" er budd pobl Blaenau Gwent.

Bydd ffrwyth yr adolygiad hwn a gwaith arall yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu

Blynyddol a gyhoeddir.

Bwriedir y bydd yr adolygiad yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y casgliadau y daethpwyd iddynt ac, yn bwysig, cynllun gweithredu i gael ei ddilyn i sicrhau gwelliant parhaus yn nhrefniadau Llywodraethu'r Cyngor.

Dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei ystyried gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, y bydd y Cyngor yn dirprwyo iddo'r rôl o geisio sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd yr amryw drefniadau a ddisgrifir yn y Cod hwn.

Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r fframwaith tystiolaeth a baratowyd i ategu'r Datganiad Llywodraethu gan gynnwys y dogfennau polisi, y gweithdrefnau gweithredu safonol a'r canllawiau a ddefnyddiwyd ynghyd ag ystyried eu heffeithiolrwydd.